

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar Ariannu Seilwaith Ffyrdd

Ionawr 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar Ariannu Seilwaith Ffyrdd

Ionawr 2010



Aelodau'r Pwyllgor



Angela Burns
Cadeirydd
Gorllewin Caerfyrddin a
De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



Mohammad Asghar
Dwyrain De Cymru
Plaid Cymru



Alun Davies
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur



Christopher Franks
Canol De Cymru
Plaid Cymru



Ann Jones
Dyffryn Clwyd
Llafur



Huw Lewis
Merthyr Tudful a Rhymni
Llafur



Nick Ramsay
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



Joyce Watson
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur



Kirsty Williams
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru

Cynnwys

	Paragraffau
Rhagair y Cadeirydd	
Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion	
Cyflwyniad	1 - 3
Cylch Gorchwyl	4
Tystiolaeth	5 - 8
Cefndir	9 - 21
Yr angen am yr ail-flaenoriaethu yn 2008	22 - 42
Gweithdrefnau penderfynu	43 - 48
Ymgynghori ehangach	49 - 63
Effaith ail-flaenoriaethu 2008 ar y cysylltiadau Gogledd-De a Dwyrain-Gorllewin	64 - 71
Prosiect newydd yr M4	72
Casgliadau ac argymhellion	73 - 87

Atodiadau

- 1 Rhestr o'r tystion a'r dystiolaeth
- 2 Dyfyniad o Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru
- 3 Nodyn gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau: Ymchwiliad i Ariannu Seilwaith Ffyrdd (26 Tachwedd 2009)

Rhagair y Cadeirydd

Yn y byd modern hwn, mae'r gallu i symud o amgylch y wlad yn hanfodol ar gyfer bron pob agwedd ar fywyd - at ddibenion busnes, gofal iechyd, addysg a hefyd i fwynhau digwyddiadau hamdden a gwyliau. Felly mae'n hanfodol bod system trafndiaeth Cymru yn cael ei datblygu a'i chynnal yn unol ag anghenion y wlad, ond rhaid cydnabod hefyd bod ffyrdd yn rhan hanfodol o system drafndiaeth Cymru a bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn rhan hanfodol o'r system ffyrdd.

Defnyddir tua £90m y flwyddyn ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru. Mae hyn yn swm sylweddol o arian, ac mae'n hanfodol y caiff ei wario, ac y caiff y rhwydwaith ffyrdd ei ddatblygu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Ond rhaid cydnabod bod cefnffyrdd yn rhan o system ehangach. Er mwyn bod o'r budd mwyaf, rhaid i'r blaenraglen cefnffyrdd gydgyssylltu ag amrywiaeth o fuddsoddiadau eraill fel ffyrdd lleol, rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a phrosiectau adfywio. Os ydym am gael y gwerth gorau am arian o'r holl fuddsoddiad yng Nghymru, mae'n hanfodol y caiff yr holl waith ei gynllunio a'i gydgyssylltu er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion pobl Cymru ar gyfer y dyfodol hyd y gellir rhagweld.

Yn yr ymchwiliad, hwn, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi archwilio'r dulliau sydd ar waith i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn y blaenraglen cefnffyrdd yn cael ei gydgyssylltu, sut y caiff y gwahanol safbwyntiau eang eu hystyried wrth wneud penderfyniadau a pha mor effeithiol y mae hyn i gyd yn gweithio. Casgliad y Pwyllgor Cyllid ar y cyfan yw bod angen gwella, ac rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a fydd yn gwella'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith cefnffyrdd. Roedd hon yn farn gref ymysg aelodau'r Pwyllgor Cyllid er bod un aelod wedi mynegi peth amheuaeth am rai o'r argymhellion, er nad oedd yn gallu egluro'r amheuon hynny ymhellach. Y gobaith yw y bydd y Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion hyn ac yn gweithredu arnynt oherwydd yr effaith y byddai rhwydwaith ffyrdd cydlynus yn ei gael ar bobl Cymru, ar sicrhau gwasanaethau amserol a phwysigrwydd seilwaith drafndiaeth dda o ran ffyniant Cymru yn y dyfodol.

Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i'r holl dystion a roddodd o'u hamser a'u hegni i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Hoffwn ddiolch, hefyd, i'r Dirprwy Brif Weinidog a'i swyddogion a roddodd lawer o wybodaeth i'r Pwyllgor am y blaenraglen cefnffyrdd a'r modd y gwneir penderfyniadau. Ac yn ôl yr arfer, hoffwn ddiolch i'r Clerc a'i Dîm am weithio'r oriau maith sydd eu hangen i baratoi'r adroddiad hwn.

Angela Burns
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

- 1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei chael yn anodd osgoi dod i'r casgliad bod y rhaglen cefnffyrdd yn cael ei datblygu heb ystyried anghenion yr holl randdeiliaid – fel pe bai dyma unig nod y datblygiadau.**
- 2. Er bod y Pwyllgor Cyllid yn derbyn y gall cynlluniau ffyrdd, fel unrhyw fuddsoddiad hirdymor, wynebu anawsterau a allai rwystro cynnydd, roedd yn ei chael yn anodd gweld o'r newidiadau hyn ei bod yn cael ei rheoli fel rhaglen strategol.**
- 3. Er y gallai'r Pwyllgor Cyllid weld arwyddion o newid pwyslais o ran dwyrain – gorllewin a gogledd – de, roedd cymaint o ddiffyg rheolaeth ac ansicrwydd o fewn y rhaglen fel ei bod yn anodd dod i benderfyniad clir.**
- 4. Cred y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Llywodraeth fabwysiadu arferion busnes mwy modern ar gyfer dileu a rheoli'r holl risgiau, gan gynnwys amcangyfrif gwael, cynllunio gwael a gorffen y gwaith yn hwyr.**
- 5. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ei chael yn anodd gweld nad yw'n bosibl, o fewn cyllideb flynyddol o tua £16bn i Gymru, ddatblygu dull a fydd yn galluogi ymrywmiadau i gael eu gwneud am gyfnod o bum mlynedd mewn cysylltiad â rhaglen fuddsoddi flynyddol o tua £80m - £90m.**
- 6. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn ei chael yn anodd gweld sut roedd y rhaglen cefnffyrdd yn cael ei chydgyssylltu â datblygiadau a blaenoriaethau eraill y Llywodraeth a ledled Cymru.**
- 7. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn synnu nad oedd cam yn y broses ar gyfer trafod anghenion a gofynion Adrannau eraill o fewn Llywodraeth y Cynulliad a oedd angen ffyrdd i gyflawni eu hamcanion.**
- 8. Roedd y ffaith na chafodd y rhaglen ei thrafod yn y Cabinet i sichrau cydlyniant â rhaglenni buddsoddiad mawr eraill yn peri pryder i'r Pwyllgor Cyllid.**
- 9. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn siomedig o glywed gan yr holl dystion mai proses un-ffordd yn unig oedd yr ymgynghoriad ar y Cefnffyrdd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru; er bod y Llywodraeth yn fodlon cymryd rhan yng nghweithgareddau'r awdurdodau lleol a chyrff eraill, ni wnaeth erioed ymgynghori â hwy ar y rhaglen cefnffyrdd. Ni all y Pwyllgor Cyllid weld sut y gall y Llywodraeth baratoi cynllun strategol**

heb wybod beth yw cynlluniau a blaenroethau eraill a fydd yn defnyddio'r rhwydwaith cefnffyrdd.

10. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymhell y dylid rheoli'r rhaglen cefnffyrdd fel rhaglen strategol sy'n ganolog i amrywiaeth eang o bolisiau a rhaglenni'r Llywodraeth.
11. Dylai'r Llywodraeth gyrraedd barn bendant am amcanion strategol y rhaglen o gofio anghenion yr holl randdeiliaid o fewn y Llywodraeth a'r tu allan. Dylai fod yn agored am y broses a'r ystyriaethau, a dylai chwilio am farn pawb sy'n rhan o'r rhaglen ynghyd â'r rhai yr effeithir arnynt gan y rhaglen. Dylai hefyd wrando ar y farn honno. Dylai'r cynllun nodi'n glir sut mae'r buddsoddiad mewn ffyrdd yn cydweddu â chynigion buddsoddi a datblygu eraill. Yna, dylai'r Llywodraeth gytuno â'r cynllun, ei gyhoeddi ac ymrwymo iddo.
12. Dylai'r ddarpariaeth gael ei rheoli gan uned benodol a gaiff ei sefydlu at y diben hwn gyda'r sgiliau angenrheidiol o ran defnyddio arferion busnes modern ac a fydd yn sicrhau y caiff y prosiectau eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb. Nid oes gan y Pwyllgor Cyllid farn ynghylch a ddylai hyn fod o fewn y Llywodraeth neu drwy gorff allanol, ond dylai'r Llywodraeth sicrhau bod ganddi'r offerynnau sydd eu hangen arni i wneud ei gwaith. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cyfundrefn ariannol sy'n briodol ar gyfer rhaglen fuddsoddi dros gyfnod o flynyddoedd.
13. Yna, dylai'r Llywodraeth osgoi'r temptasiwn i rannol reoli'r rhaglen neu newid y blaenoriaethau ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.
14. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn na fyddai'n briodol i'r Llywodraeth ystyried datblygu rhaglen ffyrdd arall mor fuan ar ôl y gwaith ail-flaenoriaethu. Felly mae'r Pwyllgor am i'r Llywodraeth, wrth ymateb i'r adroddiad hwn, nodi sut y bydd yn ailffocysu'r rhaglen bresennol er mwyn dileu'r holl broblemau a achoswyd gan amcangyfrif gwael, oedi, ansicrwydd o ran cyllid a diwygiadau diddiwedd. Yn benodol, mae'r Pwyllgor am i'r Llywodraeth fynd i'r afael â'r pryderon niferus sydd gan sefydliadau yng Nghymru am waith ail-flaenoriaethu 2008.

Cyflwyniad

1. Penderfynodd y Pwyllgor Cyllid gynnal yr ymchwiliad hwn oherwydd y pryderon ynghylch effaith y newidiadau a wnaed wrth ail-flaenoriaethu Blaenraglen Cefnffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008.
2. Yn benodol, roedd yr Aelodau'n pryderu fod y newid i raglen 2008 wedi golygu newid sylweddol i ffocws y rhaglen. Awgrymwyd bod y rhaglen newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gysylltiadau o fewn Cymru, ac yn bennaf yr A470 sy'n cysylltu gogledd a de Cymru. Cyflawnwyd hyn ar draul cysylltiadau rhwng Cymru a chyrchfannau i'r dwyrain y tu allan i Gymru. O gofio'r dirywiad economaidd diweddar, roedd yr Aelodau o'r farn y dylai Cymru fod yn canolbwyntio ar ddatblygu'r economi fel ei phrif flaenoriaeth, a datblygu cysylltiadau ffyrdd allweddol rhwng Cymru a chyrchfannau yn Lloegr yn bennaf, gan droi at farchnadoedd y tu hwnt i hynny ymhen amser.
3. Barn y Pwyllgor Cyllid yw bod ffyrdd yn bodoli er mwyn gwasanaethu defnyddwyr a defnyddwyr posibl ac na ddylid ystyried y rhaglen cefnffyrdd fel nod ynddi'i hun. Felly mae'n bwysig y caiff y gwaith o fuddsoddi mewn cefnffyrdd ei gydgysylltu â rhaglenni eraill y Llywodraeth ac yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â datblygu economaidd ac adfywio cymunedol. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod y newidiadau i'r rhaglen cefnffyrdd yn ystyried yn llawn y rhaglenni eraill a wasanaethir ganddi. Mae'r graddau a'r ffordd y caiff y rhaglenni hyn eu cydgysylltu yn elfen hanfodol o sicrhau y caiff yr adnoddau sydd ar gael i Gymru eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl.

Cylch Gorchwyl

4. Felly, penderfynodd y Pwyllgor Cyllid gynnal ymchwiliad a chytuno ar y Cylch Gorchwyl canlynol:

Archwilio dulliau o ddyrannu arian ar gyfer datblygu seilwaith ffyrdd a'r rhyngwyneb â gwariant mewn rhaglenni polisi eraill (fel datblygiad economaidd ac adfywio cymunedol) a sut y caiff y newidiadau eu cydlynu ym mhob un ohonynt.

Yn bennaf, i ystyried:

- *sut y caiff penderfyniadau ar newidiadau ariannol i'r rhaglen ffyrdd strategol eu cydlynu a'r effaith y maent yn ei chael ar y rhaglenni hynny;*
- *sut y caiff yr effaith ariannol ar lywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill ei hasesu a'r modd y mae'r partneriaid hyn yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau.*

Tystiolaeth

5. Ystyriodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys y dogfennau allweddol canlynol:
 - *Blaenraglen Cefnffyrdd 2002* – cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002;
 - *Diweddariad y Blaenraglen Cefnffyrdd 2004* – cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004; ac
 - *Ail-flaenoriaethu'r Blaenraglen Cefnffyrdd* - a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008.
6. Ar ôl hyn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Dirprwy Brif Weinidog, yn ei rôl fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a thystiolaeth gan y swyddogion. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio ac amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru a oedd yn rhan o'r rhaglen Cefnffyrdd ac yr oedd y rhaglen yn effeithio arnynt.
7. Ceir y manylion llawn yn Atodiad 1.
8. Cafodd y Pwyllgor Cyllid lawer o dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar yn ystod ei ymchwiliad a hoffai gofnodi ei ddiolch i bawb a oedd yn rhan o'r ymchwiliad ac a gyfrannodd ato. Hoffai ddiolch yn arbennig i'r Dirprwy Brif Weinidog am ddod i'r Pwyllgor a darparu ymatebion ysgrifenedig i nifer sylweddol o geisiadau.

Cefndir

9. Nodir nodweddion allweddol y gwahanol raglenni ffyrdd isod. Ceir dadansoddiad llawnach yn y papur ymchwil a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, sef *Blaenraglen Cefnffyrdd Tachwedd 2009*.

2002

10. Roedd y Blaenraglen Cefnffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002, yn datgelu rhaglen fawr o welliannau i gefnffyrdd ledled Cymru. Dyma'r adolygiad cyntaf o'r fath yng Nghymru ers datganoli a chyhoeddi Fframwaith Trafnidiaeth ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

11. Roedd yn mynd i'r afael â nifer o anghenion allweddol:

- cefnogi amcanion a thwf economaidd Cymru;
- sicrhau gwelliannau amgylcheddol i gymunedau;
- cadarnhau'r cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru;
- sicrhau bod cefnffyrdd yn chwarae rhan annatod yn rhwydwaith drafnidiaeth gyffredinol Cymru.

12. Roedd y Rhaglen y cynnwys nifer o gynlluniau mawr a fyddai'n gallu dechrau o fewn chwe blynedd. Roedd rhaglen dreigl ar gyfer dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar deilyngdod y cynllun yn seiliedig ar nifer o feini prawf asesu.

2004

13. Roedd Atodiad 2004 yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y rhaglen o gynlluniau i adlewyrchu datblygiadau yn y Rhaglen ac amcanion Cymru: Gwlad Well a'r Cynllun Gofodol.

14. Y prif newidiadau oedd:

- M4 Newydd – Magwyr i Gas-bach: symudwyd o 'Ar y Gweill' i Gam 2 (hy mwy o flaenoriaeth).
- Mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd: ychwanegwyd at y rhaglen, yng Ngham 3.
- A40 Sanclêr i Hwlfordd: rhannwyd yn ddau gynllun.

2008

15. Cyhoeddwyd rhaglen ail-flaenoriaethu 2008 ar y cyd â chyhoeddi'r Blaenraglen Rheilffyrdd gyntaf. Mewn datganiad ar 2 Rhagfyr, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod ffocws y blaenraglen cefnffyrdd wedi cael ei addasu i gynhyrchu rhestr ddiwygiedig o gynlluniau mewn tri cham a gaiff eu hamseru. Cafodd y rhain eu rhestru yn ôl blaenoriaeth, gan adlewyrchu ymrwymadau 'Cymru'n Un' (Atodiad 3).

16. Roedd Cam 1 yn gyfres o brosiectau o bwys uchel a fwriadwyd i fod yn barod i ddechrau cyn mis Ebrill 2011, ac a oedd yn cynnwys nifer o brosiectau i gynorthwyo cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau hanfodol i ffordd strategol yr A470 yng Nghwmbach, Alltmawr a Gelligemlyn a'r A487 ym Mhorthmadog.

17. Roedd Cam 2 yn gyfres o brosiectau o bwys uchel a fwriadwyd i fod yn barod i ddechrau rhwng mis Ebrill 2011 a mis Ebrill 2014.
18. Roedd Cam 3 yn gyfres o brosiectau o bwys uchel lle roedd angen astudiaethau i ganfod yr atebion gorau i broblemau ac nad oedd yn debygol y byddai'n bosibl dechrau arnynt cyn mis Ebrill 2014. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog [ibid] y byddai'r rhain, o gael eu gweithredu yn golygu cwblhau'r gwelliannau i ffordd Blaenau'r Cymoedd fel y bwriadwyd. Dylai'r gwelliannau yng nghanau 1, 2 a 3 - sy'n cysylltu'r gogledd a'r gorllewin â de Cymru - cael eu cwblhau erbyn 2020, yn amodol ar weithdrefnau cymeradwyo statudol a chyllid.
19. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog mai bwriad y rhaglen oedd cydnabod pa mor bwysig yw'r cysylltiadau rhwng gogledd a de Cymru a Blaenau'r Cymoedd. Mynegodd hefyd ei bendantwydd i wella cysylltiadau rheilffordd, a fyddai'n cynorthwyo i gyrraedd targedau newid yn yr hinsawdd a'r galw gan deithwyr am fwy o wasanaethau.
20. Ar gyfer ffordd liniaru newydd yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach, roedd rhaglen ail-flaenoriaethu 2008 yn cadw dosbarthiad 'Cam 2' 2004. Ers hynny, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi penderfynu nad yw am barhau â'r ffordd hon ar y sail fod Amlinelliad o Achos Busnes wedi cael ei baratoi a bod hyn wedi dangos nad yw'r M4 newydd yn fforddiadwy. [datganiad 13 Gorffennaf 2009]
21. Yn ystod y cyfnod ers 2002, mae'r newidiadau i'r rhaglen gefnffyrdd wedi cwmpasu 32 o newidiadau rhwng camau. Mae dau gynllun wedi cael eu hychwanegu a dau gynllun wedi cael eu tynnu oddi ar y rhaglen.¹

Yr angen am yr ail-flaenoriaethu yn 2008

22. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid² fod ffocws newydd i blaenraglen cefnffyrdd 2008 er mwyn llunio rhestr ddiwygiedig o gynlluniau, wedi'u rhestru yn ôl blaenoriaeth i adlewyrchu ymrwymadau Cymru'n Un, ac a welir yn atodiad 1 i'r papur hwn. Y nod wrth ail-flaenoriaethu cynlluniau cefnffyrdd oedd sicrhau cysylltiadau gwell rhwng canolfannau poblogaeth, gan wella'r dosbarthiad o gyfleoedd datblygu economaidd. Roedd y rhaglen ail-flaenoriaethu hefyd yn archwilio pa mor fforddiadwy yw'r rhaglen bresennol o gofio bod yr hinsawdd economaidd yn symud yn gyflym a'r newid yn yr arferion cyfrifyddu

¹ Datganiad llafar gan y Dirprwy Brif Weinidog - Y Cynllun Trafnidiaeth Cyhoeddus, 15 Gorffennaf 2009

² Papur FIN(3)-06-09(p1). Para 8, 18 Mawrth 2009

llywodraethol rhyngwladol a fyddai'n golygu bod rhai o'r cynlluniau mawr yn cael eu hychwanegu i'r fantolen.

23. Yn ei dystiolaeth lafar, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod wedi adolygu lle roedd pethau³ mewn cysylltiad â'r holl gynlluniau yn y rhaglen. Dywedodd mai'r ddwy egwyddor bwysicaf a nodwyd yn y rhaglen 'Cymru'n Un' oedd eu bod am edrych ar y cynlluniau gogledd-de a'u bod am weld goblygiadau cludiant adfywio Blaenau'r Cymoedd. Dywedodd ei fod wedi canfod fod angen iddo wneud rhai penderfyniadau sylfaenol os oedd am gadw at yr amserlen a roddwyd iddo. Pe bai wedi parhau heb wneud dim, ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r rhaglen o gwbl.
24. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog⁴ at blaenraglenni cefnffyrdd 2002, 2004 a 2008 a dywedodd pe baech yn edrych ar y derminoleg nad oedd dyddiadau penodol yn y rhaglen ar gyfer dechrau unrhyw beth. Maent wedi'u nodi mewn iaith a oedd yn galluogi cynlluniau i lithro o fewn y rhaglen. Cyfeiriodd at yr ymadrodd⁵ yn rhaglen 2004 a oedd yn nodi 'Subject to completion of statutory consent procedures and the availability of finance'. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ei bod yn rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau o ran llithriadau yn rhaglen 2008.
25. Wrth edrych ar y llithriadau, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog⁶ ei fod wedi gweld fod nifer o'r rhesymau dros y llithriadau hynny yn ymwneud â nifer o ffactorau amrywiol:
 - 'Chwyddiant mynegai adeiladu' (Construction index inflation) - hy mae costau ffyrdd yn codi yn gyflymach na'r mynegai prisiau manwerthu. Dywedodd y swyddogion fod costau cynlluniau wedi codi 40% rhwng 2001 a 2007 a bod hyn yn sylweddol uwch na'r cyllidebau a ddyrannwyd i drafnidiaeth.⁷
 - Gor-raglennu - tueddiad peirianwyr i or-raglennu am eu bod yn cydnabod y bydd rhai rhaglenni yn cael eu dal yn ôl, felly gallant ddod â rhai eraill i mewn i wario'r arian yn y flwyddyn honno.⁸
 - Rhagfarn optimistiaeth - yr angen i ychwanegu canran gan y bydd peirianwyr yn amcangyfrif yn is na gwir gostau unrhyw gynllun.⁹

³ Cofnod y Trafodion, p45, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴ Cofnod y Trafodion, p48, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁵ Cofnod y Trafodion, p49, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁶ Cofnod y Trafodion, p51, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁷ Cofnod y Trafodion, p56, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁸ Cofnod y Trafodion, p54, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁹ Cofnod y Trafodion, p56, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

- Newid yn y ffordd y caiff risg ei ddyrannu o fewn cynllun, sy'n golygu ei bod yn dod yn rhan o'r swm yn llawer cynharach.¹⁰
 - Newidiadau mewn safonau cyfrifyddu rhyngwladol, a effeithiodd ar y Fenter Cyllid Preifat. Roedd rhaglen 2004 wedi cymryd yn ganiataol y byddai rhai cynlluniau yn cael eu hariannu gan y Fenter Cyllid Preifat. Fodd bynnag, roedd hyn wedi newid gan fod newidiadau mewn safonau cyfrifyddu rhyngwladol wedi golygu na fyddai'r rhain bellach oddi ar y fantolen.¹¹
26. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd unrhyw beth unigryw am yr hyn a ddigwyddodd yn 2004. Dyma fu'r patrwm, a gellir ei weld yn y rhaglenni ar gyfer 2002, 2004 ac o dan yr hen Swyddfa Gymreig a'r Adran Drafnidiaeth. Fodd bynnag, cyfeiriodd at ddadansoddiad a wnaed yn 2006, a dywedodd bod system raglennu gadarnach o lawer ar waith bellach, o ganlyniad i hyn, ac y bydd yn caniatáu i rywun fod yn fwy hyderus y caiff rhaglenni eu darparu yn y dyfodol.
27. Fodd bynnag, cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog¹² at ansicrwydd o ran cynllunio a'r angen am gydsyniad statudol, gan y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar ei gyllideb.¹³
28. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid,¹⁴ cymeradwyodd yr Athro Cole, Athro Trafnidiaeth yng Nghanolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Prifysgol Morgannwg lawer o sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog o ran llithriadau. Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r llithriadau wedi digwydd o ganlyniad i ddiffyg ariannu a bod cynlluniau yn llithro yn ôl os nad oes digon o gyllid. Cadarnhaodd¹⁵ fod cynlluniau'n llithro drwy'r adeg, a bod y cyllid, yn ei farn ef, yn annigonol ac nad oedd y cynlluniau wedi cael eu hadeiladu oherwydd hynny.
29. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod cyd-destun hanesyddol y rhaglen cefnffyrdd bresennol.

Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol Iwerddon

30. Cafodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan gynrychiolwyr Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol Iwerddon yn Nulyn er mwyn dysgu mwy gan swyddogion mewn

¹⁰ Cofnod y Trafodion, p57, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹¹ Cofnod y Trafodion, p57, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹² Cofnod y Trafodion, p86 ac 88, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹³ Cofnod y Trafodion, p86 ac 88, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁴ Cofnod y Trafodion, p104, 1 Ebrill 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁵ Cofnod y Trafodion, p105, 1 Ebrill 2009, Y Pwyllgor Cyllid

gwlad arall am y modd maent yn rheoli eu rhaglen gefnffyrdd. Dywedodd Hugh Creegan, pennaeth partneriaethau cyhoeddus-preifat a chynllunio strategol yn yr Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol, wrth y Pwyllgor¹⁶ fod ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol dros system gyfatebol yn Iwerddon i system cefnffyrdd Cymru. Cafodd ei sefydlu i dynnu'r gwaith o reoli adeiladu ffyrdd a datblygu ffyrdd allan o'r maes gwleidyddol. Fel asiantaeth, roedd yn gweithredu fel corff gweithredu.

31. Dywedodd Mr Creegan¹⁷ mai'r man cychwyn oedd ystyried y farn genedlaethol a phenderfynu beth oedd angen ei wneud. Nodwyd y coridorau a oedd angen eu datblygu a chynlluniau a oedd angen eu cyflwyno. Yna, cymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Iwerddon. Unwaith y cafodd ei dderbyn, yr Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol oedd yn gyfrifol am ei gyflenwi'n effeithiol, yn amodol ar gyllid. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod nifer o gyffelybiaethau diddorol â Chymru ac roedd gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb yn y ffordd roedd yr Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol wedi mynd i'r afael â rhai o'r heriau roedd Cymru wedi'u hwynebu.
32. Dywedodd Mr Creegan wrth y Pwyllgor Cyllid¹⁸ eu bod wedi gobeithio cael symud oddi wrth y dyddiau pan fyddai penderfyniadau gwleidyddol yn cael eu gwneud er hwylustod. Roedd yr Awdurdod bellach yn asesu anghenion, yn cynhyrchu cynllun a oedd yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny ac yna'n ceisio'u blaenoriaethu ar sail broffesiynol yn hytrach nag ar sail emosiynol.
33. Er eu bod yn defnyddio Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat ar gyfer rhai prosiectau ffyrdd, dywedodd Mr Creegan¹⁹ nad oedd tua 75% ohonynt o fewn y categori hwn a bod y rhain yn cael eu gwneud drwy broses gynllunio ac adeiladu. Dywedodd fod hyn wedi goresgyn nifer o broblemau y daethant ar eu traws yn y gorffennol. Roedd tair elfen i'w llwyddiant: amcangyfrifon da o ran costau - nid oedd gwaith ymchwil da wedi cael ei wneud iddynt yn y gorffennol ac nid oedd digon o waith meddwl wedi cael ei roi iddynt, ac roedd y costau wedi codi oherwydd hyn, nid oherwydd anawsterau gyda'r prosiectau eu hunain. Roedd cysylltiadau da a safonol ar gyfer eu holl brosiectau wedi cael eu meithrin hefyd. Y drydedd elfen oedd sgiliau da o ran rheoli prosiect. Roedd yr Awdurdod wedi symud tuag at gam lle roedd prosiectau bellach yn gorffen ar amser ac o fewn y gyllideb.
34. Un mater arall oedd y cyllid oedd ar gael. Dywedodd Mr Creegan²⁰ eu bod, yn y gorffennol, wedi gweithredu ar sail cyllid blynyddol ond eu bod wedi llobio'r Llywodraeth ar y sail nad oedd hyn yn ffordd effeithlon o reoli a chynllunio. O

¹⁶ Cofnod y Trafodion, p159, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁷ Cofnod y Trafodion, p175, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁸ Cofnod y Trafodion, p171, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁹ Cofnod y Trafodion, p210, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²⁰ Cofnod y Trafodion, p189-191, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

ganlyniad, roedd y Llywodraeth wedi rhoi rhaglen fuddsoddiad dreigl pum-
mlynedd ar waith ac roedd yr Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol wedi aeddfedu o
gynllunio darniog i gynllunio yn llawer mwy dealladwy. Un o'r manteision eraill
oedd bod hyn yn galluogi'r diwydiant adeiladu i baratoi a chynllunio a buddsoddi
ar gyfer prosiectau mawr.

Datblygu rhaglen 2008

35. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog²¹ mai'r peth cyntaf fyddai angen ei wneud oedd penderfynu lle roedd popeth mewn cysylltiad â rhaglen 2004. Dywedodd²² mai dim ond swm penodol o arian sydd ganddo, sef rhwng £50m a £60m y flwyddyn, ac nad oedd unrhyw fodd y gallai'r gyllideb honno ymestyn i ariannu llwybrau'r gogledd-de a ffordd Blaenau'r Cymoedd, yn ogystal â'r holl gynlluniau eraill a oedd yn cael eu hystyried. Roedd wedi penderfynu bod angen cymorth ariannol y tu hwnt i'w gyllideb graidd - a bod hyn yn rheswm arall dros yr oedi o ran cyhoeddi'r cynllun. Soniodd y Dirprwy Brif Weinidog am ddwy ffynhonnell bosibl ar gyfer y cyllid ychwanegol hwn, sef arian o Ewrop a'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Dywedodd²³ y gallai, unwaith y bydd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw, gynnwys y ddwy flaenoriaeth (y llwybr gogledd-de a ffordd Blaenau'r Cymoedd) o fewn yr amser a roddwyd iddo, yn ogystal â'r holl gynlluniau eraill nad oedd lle iddynt yn y ddau gynllun uchod. Nodir gan y Pwyllgor Cyllid y byddai arian yr UE yn gymwys i ffordd Blaenau'r Cymoedd ond nid i'r llwybr gogledd-de.

Ystyriaeth o gynlluniau unigol

36. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid i'r Dirprwy Brif Weinidog am y modd y caiff cynlluniau ffyrdd unigol eu hystyried. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor²⁴ bod angen ystyried nifer o ffactorau ac y caiff y cynllun ei arfarnu drwy'r system WeITAG. Ychwanegodd fod gan y Llywodraeth, bellach, brawf ychwanegol a oedd yn gofyn a oedd pob modd arall o drafnidiaeth a fyddai o fantais i gymunedau lleol wedi cael eu hystyried cyn dod i'r casgliad mai'r ffordd yw'r unig ddewis. Ymhelaethodd y swyddogion ar hyn²⁵ gan esbonio'r amrywiaeth eang o ffactorau a gaiff eu hystyried yn ystod y broses a'r amrywiaeth eang o farn ac asesiadau sydd angen eu hystyried er mwyn ystyried yr holl ffactorau materol. Pwysleisiwyd bod y cynllun WeITAG yn ddull pendant o ddwyn ynghyd yr holl ffactorau er mwyn creu ateb 'delfrydol' i gyflawni'r amcanion.²⁶ Roedd, yn ei hanfod, yn ddadansoddiad o

²¹ Cofnod y Trafodion, p73, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²² Cofnod y Trafodion, p77, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²³ Cofnod y Trafodion, p77, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²⁴ Cofnod y Trafodion, p9, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²⁵ Cofnod y Trafodion, p11, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²⁶ Cofnod y Trafodion, p16, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

gostau – manteision.²⁷ Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y cynllun WeITAG yn cael ei adolygu'r rheolaidd.²⁸

37. **Sylw:** Mae'r Pwyllgor Cyllid yn deall bod cynllunio a rheoli rhaglen o ansicrwydd sy'n deillio o amrywiaeth o ffactorau y tu allan i reolaeth y Llywodraeth yn anodd. Ond dengys tystiolaeth yn glir bod llawer o faterion yn codi o ffactorau 'o fewn' y system y gall y Llywodraeth eu rheoli.
38. Mae'r rhaglen gefnffyrdd yn rhaglen strategol fawr ac yn rhywbeth sydd wedi bodoli yng Nghymru ers cyn datganoli a dyddiau'r Swyddfa Gymreig. Mae'n anodd deall sut y gall y Llywodraeth fod mor obeithiol ynghylch llithriad oherwydd bod y ffactorau chwyddiant anghywir wedi cael eu defnyddio neu am fod peirianwyr yn rhy 'obeithiol' wrth wneud eu hamcangyfrifon. Mae'n rhy hawdd cyfleu hyn mewn ymadroddion fel 'chwyddiant costau adeiladu' a 'rhagfarn optimistiaeth'. Y gwir yw bod y bobl broffesiynol wedi ailadrodd camgymeriadau wrth asesu costau prosiectau ac o ganlyniad, cafodd prosiectau eu dal yn ôl a ni chyflawnwyd y rhaglen gefnffyrdd.
39. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn arbennig o bryderus ar ôl clywed y caiff amcangyfrif gwael ar ran bobl broffesiynol ei gyfiawnhau rywsut drwy ddefnyddio'r ymadrodd 'rhagfarn optimistiaeth'. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ymwybodol bod y Trysorlys wedi cyhoeddi canllawiau ar hyn yn 2002 a bod Adran Drafndiaeth Prydain wedi cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â rhagfarn optimistiaeth ym maes Cynllunio Trafnidiaeth yn 2004.
40. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn deall pam y caiff y rhaglen gefnffyrdd ei thrin mewn ffordd mor hen-ffasiwn a pham bod y Gweinidog a'r swyddogion yn dibynnu ar ymadroddion fel "Subject to completion of statutory consent procedures and the availability of finance" yn y print mân i gyfiawnhau peidio â chwrdd â thargedau. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn y dylai Adran Economi a Thrafnidiaeth y Llywodraeth gofleidio arferion busnes modern ar gyfer rheoli'r prosiectau hyn, gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig ag amcangyfrif gwael, cynllunio gwael a gorffen yn hwyr.
41. Calonogwyd y Pwyllgor Cyllid o glywed am brofiadau'r Awdurdod Ffyrdd Cenedlaethol yn Nulyn, a oedd wedi wynebu problemau tebyg. Nododd y Pwyllgor Cyllid ei fod bellach yn cyflenwi prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb ac mai'r allwedd i hyn, yn bennaf, oedd rheolaeth dda: amcangyfrifon dibynadwy, contractau safonol a rheoli prosiectau yn dda. Roedd eu profiadau yn atgyfnerthu'r

²⁷ Cofnod y Trafodion, p11 ac ymlaen, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

²⁸ Cofnod y Trafodion, p16, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Cyllid a'r casgliadau y daeth iddynt yn ei ymchwiliad diweddar i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

42. O gofio'r ansicrwydd a'r oedi oherwydd amcangyfrifon gwael, mae'n anodd gwybod faint o ddadansoddiadau ystyrllon o newidiadau i'r rhaglen gefnffyrdd y mae'n werth eu gwneud. Nododd y Pwyllgor Cyllid eiriau'r Dirprwy Brif Weinidog pan ddywedodd fod rhaglen 2008 yn gadarnach ac yn fwy cyflawnadwy na'r un ar gyfer 2004 a chymharwyd y gwariant a fwriedir yn ystod gwahanol gamau'r rhaglenni hyn. Mae'r Pwyllgor wedi archwilio'r amcangyfrif o gostau posibl yr elfennau yng Ngham 1 yn 2004 ac yn 2008 ar sail y wybodaeth a roddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog yn ei lythyr²⁹ dyddiedig 21 Medi at y Pwyllgor Cyllid. Dengys hwn fod gan weddillion y cynlluniau sy'n cynnwys Cam 1 o raglen 2004 (sef y gwaith nas cwblhawyd hyd yn hyn) gostau net o £86m (yn ôl prisiau mis Tachwedd 2008). Fodd bynnag, cyfanswm costau'r cynlluniau sy'n cynnwys Cam 1 o raglen 2008 yw £176m (ar yr un sail). Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac mae'r Pwyllgor yn pryderu pe bai anawsterau o ran darparu cynlluniau sydd â chyfanswm o £86m yn ystod cam 1 o raglen 2004, yna gallai blaenoriaethu gwerth £176m o gynlluniau i gam 1 yn 2008 fod yn anos na hynny, hyd yn oed, i'w gyflawni.

Gweithdrefnau penderfynu

43. Archwiliodd y Pwyllgor Cyllid y modd y gwneir penderfyniadau am gynlluniau ffyrdd unwaith y bydd y materion technegol ac unrhyw faterion eraill wedi cael eu hystyried.
44. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor Cyllid³⁰ fod datblygiad neu adfywio posibl o ran ardal benodol hefyd yn un o'r ffactorau a gaiff eu hystyried a bod hyn yn cael ei gydnabod yn rhaglen 'Cymru'n Un'. Dywedodd hefyd³¹ y byddai rhanddeiliaid eraill fel llywodraeth leol, sefydliadau busnes lleol ac unrhyw un arall sydd â diddordeb arbennig yn cael eu hystyried er mai'r Llywodraeth sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Cydgysylltu o fewn Llywodraeth

45. Holodd y Pwyllgor Cyllid y Dirprwy Brif Weinidog sut y cafodd y penderfyniadau ar Raglen Cefnffyrdd 2008 eu cymryd mewn gwirionedd a sut roedd wedi gosod y sail wleidyddol ar gyfer y penderfyniadau a wnaeth. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog

²⁹ Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog, 21 Medi 2009, gweler Atodiad 1

³⁰ Cofnod y Trafodion, p19, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

³¹ Cofnod y Trafodion, p31, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

mai mater iddo ef a'i adran oedd hyn³² ac nad oedd y Cabinet wedi trafod y penderfyniadau hyn.

46. Archwiliodd y Pwyllgor cyllid y ffordd yr oedd adfywio'n benodol wedi cael ei ystyried wrth ddatblygu Rhaglen Gefnffyrdd 2008. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid³³, dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio fod trafndiaeth yn galluogi adfywio ac y gallai drawsnewid ardal o fod yn lle o angen i fod yn lle o gyfleoedd. Dywedodd³⁴ ei bod yn un o'r elfennau allweddol o ystyried adfywio yn gyfannol. Dywedodd³⁵ y byddai ffordd Blaenau'r Cymoedd, fel porth strategol i Gymru, yn gwella mynediad, yn agor yr ardal ar gyfer buddsoddi a thyfu a helpu Parc Cenedlaethol y Bannau i fod yn agored i bosibiliadau. Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £300m dros y deng mlynedd nesaf ar gyfer cwblhau'r gwaith o wella ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd rhwng Y Fenni a Hirwaun. Mae hyn wedi arwain at fuddsoddiad gan fwy o fusnesau yn yr ardal leol.
47. Cafodd y Pwyllgor Cyllid drafodaeth gyda'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio am y ffordd y bu'n rhan o'r penderfyniadau am yr ail-flaenoriaethu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio³⁶ fod ganddo ef a'r Dirprwy Brif Weinidog berthynas waith agos iawn ers iddynt gael eu penodi i'w swyddi ym mis Gorffennaf 2007. Roedd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi gweld y papurau a gylchredwyd o fewn yr adran, a'i fod wedi cael cyfle i roi ei sylwadau arnynt a'u codi mewn trafodaethau â'r Dirprwy Brif Weinidog. Dywedodd ei fod wedi cael trafodaethau â'r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch ffordd Blaenau'r Cymoedd gan ei fod yn symud tuag at ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y rhaglen gefnffyrdd. Er na fyddai'n dweud fod rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn dibynnu ar ffordd Blaenau'r Cymoedd, dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio³⁷ y byddai deuli'r ffordd yn gyfle i adfywio o fewn yr ardal honno a'u bod am ei weld yn datblygu.
48. **Sylw:** Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r sylwadau ynghylch y Dirprwy Brif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio yn cydweithio. Yn ogystal mae'n cydnabod yr angen i gynnwys rhanddeiliaid eraill fel llywodraeth leol, sefydliadau busnes lleol ac eraill sydd â diddordeb arbennig. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ei chael yn anodd gweld sut mae hyn yn digwydd yn ymarferol. Nid yw'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog dros Adfywio wedi cael trafodaethau â'r Dirprwy Brif Weinidog wrth iddo symud tuag at ddatblygu ei gynlluniau ar gyfer y rhaglen gefnffyrdd, ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar bapurau trafndiaeth a oedd yn cael eu

³² Cofnod y Trafodion, p40, 18 Mawrth 2009, Y Pwyllgor Cyllid

³³ Papur FIN(3)-10-09(p4), para 1, Y Pwyllgor Cyllid

³⁴ Papur FIN(3)-10-09(p4), para 3, Y Pwyllgor Cyllid

³⁵ Papur FIN(3)-10-09(p4), para 4, Y Pwyllgor Cyllid

³⁶ Cofnod y Trafodion, p94, 11 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

³⁷ Cofnod y Trafodion, p94, 11 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

cylichredeg o fewn yr Adran, yn ymddangos fel ffordd ryngweithiol o weithredu. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn synnu nad oedd proses fwy ffurfiol o gynnwys y Dirprwy Weinidogion, a'r amrywiol swyddogion yn y gwaith o adfywio. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn synnu hefyd, o gofio effaith bellgyrhaeddol y rhaglen gefnffyrdd, yn ariannol o leiaf, nad oedd trafodaeth ehangach ag adrannau eraill y Llywodraeth na thrafodaeth am y penderfyniadau yn y Cabinet.

Ymgynghori ehangach

49. Mae'r Pwyllgor Cyllid eisoes wedi gwneud sylwadau ar yr adroddiad hwn nad oedd y Rhaglen Gefnffyrdd yn ganlyniad ynddo'i hun a bod y rhwydwaith ffyrdd yn bodoli i wasanaethu defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr. Mae'n cytuno'n llwyr, felly, â sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog am yr angen i roi ystyriaeth lawn i ystod eang o ddiddordebau eraill. Felly, gyda'r tystion, archwiliodd y Pwyllgor Cyllid yr ymgynghoriad a oedd wedi digwydd.

CBI

50. Dywedodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru) wrth y Pwyllgor ei fod yn cael trafodaethau cymharol reolaidd â'r Dirprwy Brif Weinidog³⁸ a'i fod wedi trafod pwysigrwydd coridorau dwyrain-gorllewin yng Nghymru ac, yn benodol, adnewyddu'r M4. Nid oedd y CBI, yn cofio, fodd bynnag,³⁹ am sesiwn benodol i siarad am drafnidiaeth ac nid oedd yn credu⁴⁰ ei fod wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar yr hyn oedd yn cael ei ystyried ganddo yn benderfyniad strategol i ail-flaenoriaethu o gynlluniau dwyrain-gorllewin i gynlluniau gogledd-de. Ym marn y CBI, y ffordd M4 newydd o amgylch Casnewydd oedd y ffordd fwyaf allweddol o lawer a'r cynllun mwyaf allweddol o ran yr economi. Roedd yn anodd iddo weld bod unrhyw gynllun arall sydd o'r fath bwysigrwydd economaidd.

Y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd

51. Dywedodd y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd wrth y Pwyllgor Cyllid⁴¹ ei bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion penodol. Er enghraifft, roedd ar grŵp cludo nwyddau Cymru ac yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu strategaeth cludo nwyddau Cymru. Roedd yn rhan o hyn am fod ganddi ddiddordeb uniongyrchol. Fodd bynnag, meddai,⁴² efallai mai unwaith neu ddwy y flwyddyn roedd yn siarad â swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Fel arfer, fodd

³⁸ Cofnod y Trafodion, p14, 7 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

³⁹ Cofnod y Trafodion, p14, 7 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, p15, 7 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴¹ Cofnod y Trafodion, p36, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴² Cofnod y Trafodion, p40 ac ymlaen, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

bynag, y Gymdeithas fyddai'n cysylltu ag ef yn hytrach na'i fod ef yn cysylltu â'r Gymdeithas. Dywedodd hefyd⁴³ nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cysylltu â hwy ac eithrio o fewn cyd-destun grŵp nwyddau trwm Cymru.

52. Dywedodd y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd⁴⁴ mai ei blaenoriaethau, pe bai rhywun wedi cysylltu â hi fyddai'r M4, yr A40 i lawr tuag at Aberdaugleddau a ffordd Blaenau'r Cymoedd. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig⁴⁵, tynnodd sylw'n benodol at goridor yr M4 gan ei bod yn credu bod angen gwelliant sylweddol arni fel llwybr i mewn i dde Cymru ac allan. Ei barn oedd nad yw'n addas i'w diben ar hyn o bryd a'i bod, yn ei chyflwr presennol yn rhwystro busnes.
53. Dywedodd y Gymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd⁴⁶ nad oedd unrhyw un wedi ymgynghori â hi am ail-flaenoriaethu cefnffyrdd 2008 ac nad oedd yn ymwybodol, hyd yn oed, bod hyn yn digwydd. Dywedodd y gallai ei strwythur ddatganoledig ei hun, a oedd yn cysylltu llawer o Gymru â gorllewin canolbarth Lloegr a gorllewin Lloegr, fod yn un ffactor, yn ogystal â'r adnoddau oedd ar gael. Er hynny, dywedodd⁴⁷ y byddai'n ymateb gorau y gallai i geisiadau am ymgynghori pan oedd hynny'n bosibl. Nododd y Pwyllgor Cyllid fod y Gymdeithas, er gwaethaf ei strwythur, yn rhan uniongyrchol o Gymru drwy grŵp cludo nwyddau Cymru.

TUC Cymru

54. Dywedodd TUC Cymru yn ei thystiolaeth bod ganddi,⁴⁸ ar y cyfan, ddau brif ddull o ymgysylltu rhwng TUC Cymru a'r Llywodraeth, sef memorandwm o ddealltwriaeth a chyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weinidog, a chyfranogiad TUC Cymru yn y cyngor partneriaeth busnes. Gallai hefyd gysylltu'n uniongyrchol â Gweinidogion i drafod materion. Er bod materion yn ymwneud â thrafnidiaeth yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd rheoliad, nid oedd hyn wedi digwydd gydag ail-flaenoriaethu 2008. Roedd yn bendant nad oedd TUC Cymru wedi bod yn rhan uniongyrchol o benderfyniadau ail-flaenoriaethu.
55. Yn dilyn yr ail-flaenoriaethu diweddar, dywedodd TUC Cymru⁴⁹ wrth y Pwyllgor Cyllid mai'r hyn sydd bwysicaf yw'r gallu i deithio rhwng canolfannau poblogaeth, yn hytrach na'r manteision uniongyrchol i'r economi. Mae'r holl goridorau economaidd yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin a'r prif goridorau economaidd

⁴³ Cofnod y Trafodion, p46, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, p50, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁵ Papur FIN(3)-11-09(p2), Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, p74-84, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, p79, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, p158, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, p128, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

iddynt hwy yw coridor yr M4 a choridor yr A55. Dywedodd⁵⁰ mai ei phryder oedd nad oedd y cynllun ail-flaenoriaethu yn seiliedig ar flaenoriaethau economaidd.

Llywodraeth Leol

56. Cyfrifoldeb y consortia trafndiaeth lleol yw cydgysylltu rhaglenni trafndiaeth rhanbarthol a ni fyddai'r Pwyllgor Cyllid o reidrwydd yn disgwyl i awdurdodau lleol unigol gael cyfraniad sylweddol i'r rhaglen gefnffyrdd. Fodd bynnag, gwahoddodd y Pwyllgor Cyllid nifer o awdurdodau i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad. Roedd hyn yn dueddol o gadarnhau'r farn gyffredinol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid o ran y diffyg ymgynghori ar y rhaglen gefnffyrdd. Dywedodd cynrychiolydd Rhondda Cynon-Taf⁵¹ mai ychydig iawn o gysylltiad roedd y Cyngor wedi'i gael â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y materion hyn. Cyfeiriodd cynrychiolydd Cyngor Sir y Fflint⁵² at rai elfennau rhyfedd o ail-flaenoriaethu yn rhaglen 2008. Pryder pennaf llywodraeth leol oedd cydbwysu blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol - a'u rhwystredigaeth⁵³ oedd ei bod yn anodd weithiau i weld a deall y rhesymeg y tu ôl i rai o'r blaenoriaethau. Mynegwyd pryder hefyd am ddiffyg cynrychiolaeth o'r gogledd yn y cynllun trafndiaeth genedlaethol

Consortia Trafndiaeth Rhanbarthol

57. Rôl y Consortia Trafndiaeth Rhanbarthol yw cyflawni Strategaeth Trafndiaeth Cymru a'r Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol yn rhanbarthol. Mae'n ofynnol i bob un baratoi Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol. Gwahoddwyd y pedwar consortia trafndiaeth rhanbarthol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad a rhoi eu barn ar y materion a godwyd yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ategwyd pryderon a fynegwyd gan eraill am y diffyg ymgynghori ar y rhaglen gefnffyrdd.

58. Dywedodd **Taith** (Gogledd Cymru) mai'r Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 15 Gorffennaf 2009 (saith mis ar ôl cyhoeddi ail-flaenoriaethu 2008, oedd y cyfle ffurfiol cyntaf a gafodd y consortia trafndiaeth rhanbarthol i fynegi barn am y Blaenraglen Cefnffyrdd. Er hynny, cyfeiriodd y consortia at amrywiol achlysuron o gysylltiadau rhwng Taith a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel drwy'r broses WelTAG a gweithdai i randdeiliaid. Cyfeiriwyd hefyd at gyfarfodydd rheolaidd rhwng Cynllunydd Trafndiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gogledd a swyddogion eraill.

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, p132, 25 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁵¹ Cofnod y Trafodion, p51, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁵² Cofnod y Trafodion, p74, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

⁵³ Cofnod y Trafodion, p94, 21 Mai 2009, Y Pwyllgor Cyllid

59. Er bod y Cynulliad a chynrychiolwyr eraill wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, mynegodd **SWITCH** (Consortium Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru) bryder nad oedd y sefyllfa'n gweithio'n groes i hyn. Dywedodd SWITCH nad oedd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Blaenraglen Gefnffyrdd. Nododd hefyd ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw gysylltiad amlwg rhwng buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a pholisïau a rhaglenni allweddol eraill o fewn Llywodraeth y Cynulliad.
60. Er bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddaw i gyfarfodydd **SEWTA** (Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) yn ymwybodol o gynlluniau a dyheadau'r consortium, nid oedd trefniadau tebyg ar gyfer trafod y rhaglen gefnffyrdd. Dywedodd fod angen ystyried cynnal a chadw a datblygu'r rhwydwaith trafniadaeth fel partneriaeth, gyda mwy o gytundeb ar y rhaglenni manwl a gaiff eu hystyried gan y consortium.
